# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **27 Gorffennaf 2021** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679335** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Uned 2a, Parc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth** |

**1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Gofynnir am gefnogaeth y Cabinet i ddefnyddio £83,000 o’r gronfa Trawsffurfio Busnes i wireddu addasiadau i adeilad Uned 2a, Parc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth er mwyn hwyluso cyswllt rhwng staff yr Adran Oedolion â’r gwasanaethau iechyd, a chreu ‘Siop Gwynedd’ i wasanaethu trigolion yr ardal.

**2 CEFNDIR**

2.1 Ar hyn o bryd, mae Uned 2, Parc Busnes Eryri, Penrhyndeudraeth yn cael ei ddefnyddio ar gyfer:

- Canolfan alwadau’r Cyngor, ‘Galw Gwynedd’
- 3 ystafell hyfforddi / cyfarfod sy’n cael eu llogi gan amryw o adrannau’r Cyngor ac Aelodau, yn bennaf
- Deintyddfa Bupa, sy’n llogi rhan o’r adeilad.

2.2 Cyn y pandemig, roedd y nifer o staff a leolir yn swyddfa Galw Gwynedd ym Mhenrhyndeudraeth wedi lleihau, a hynny o ganlyniad i drefniadau gweithio’n fwy hyblyg rhwng y ganolfan alwadau a’r tair Siop Gwynedd yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.

2.3 Mae’r pandemig hefyd wedi cynyddu’r cyfleoedd i weithio’n hyblyg o adra.

2.4 Erbyn hyn, a phan fydd ein swyddfeydd yn ail-agor, uchafswm o 12 o staff ac Arweinydd Tîm a fydd wedi eu lleoli yn y ganolfan alwadau ar un adeg, o gymharu ag oddeutu 25 o staff rai blynyddoedd yn ôl, mae hyn yn bennaf oherwydd bod gweddill y staff yn gweithio o un o’n Siopau Gwynedd sydd yn agosach i’w cartrefi.

2.5 Mae galw cynyddol hefyd wedi bod ar gyfer 'drws ffrynt' i wasanaethau'r Cyngor yn yr ardal.

2.6 Yn ychwanegol i hyn, mae rhai o staff yr Adran Oedolion yn cydweithio'n agos ac yn gyson gyda gwasanaeth iechyd yn yr ardal ac wedi datgan dymuniad i gael lleoliad swyddfa i'w staff ei ddefnyddio a fyddai o fewn pellter rhesymol o Ysbyty Alltwen.

2.7 Er mwyn uchafu'r defnydd posib o'n hasedau ble mae'r galw, mae cynlluniau arfaethedig wedi eu paratoi er mwyn addasu'r adeilad.

2.8 Amcangyfrifir i'r addasiadau gostio oddeutu £83,000.

## 3 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 O ganlyniad i newid yn y ffordd y mae'r Ganolfan Alwadau yn gweithredu, mae hwn yn gyfle i wneud defnydd gwell o ased mewn lleoliad hwylus i staff sy'n gwasanaethu Eifionydd.

3.2 Bydd y cynllun hefyd yn cynyddu presenoldeb wyneb i wyneb ar gyfer ein trigolion drwy sefydlu Siop Gwynedd ychwanegol ym Mhenrhyndeudraeth, i'w staffio gan staff y Ganolfan Alwadau.

## 4 CYDRADDOLDEB

4.1 Nid yw'r oblygiadau cydraddoldeb wedi eu hadnabod ar hyn o bryd a bydd asesiad cydraddoldeb cyflawn yn cael ei ddatblygu ar y cyd â'r broses dylunio.

## 5 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Barn yr Aelod Lleol:**
Mae'n amlwg bod y Pandemig Covid wedi golygu y bydd rhaid i'r Cyngor ailystyried ei drefniadau parthed cyswllt gyda'r Trigolion ac mae'r hyn sydd yn cael ei gynnig yn yr adroddiad yn synhwyrol ac yn gwneud gwell defnydd o'r gofod yn yr adeilad. Mae cael cyfleuster Siop Gwynedd hefyd yn mynd i fod o fydd i bobl leol gan y byddent yn gallu cael cymorth wyneb yn wyneb gydag unrhyw broblem yn y dyfodol.

**Barn y Swyddogion Statudol:**

***Y Swyddog Monitro:***
Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb.

***Swyddog Cyllid Statudol:***
Nid yw'r penderfyniad a geisir yma am olygu ymhlygiad ariannol parhaol i'r Cyngor, a byddai'r Cabinet yn medru ystyried ariannu'r costau £83,000 un tro o'r Gronfa Trawsffurfio. Deallaf fod y bwriad yma'n cyd-fynd efo'r ail strwythuro sydd wedi digwydd yn y gwasanaeth Cyswllt Cwsmer yn ddiweddar er mwyn ymateb yn well i anghenion y cyhoedd. Mater i'r aelodau'r Cabinet ystyried yw blaenoriaethu dyraniadau o'r Gronfa Trawsffurfio. Cadarnhaf fod arian digonol wedi'i neilltuo yno gan y Cabinet ar 18 Mai 2021 wrth dderbyn yr adroddiad 'Alldro' ar gyfrifon 2020/21.